**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Llofnodwyr Cyfamod y Lluoedd Arfog

**Ystafell Bwyllgor 2, Canolfan Ddinesig, Abertawe**

**Dydd Llun, 25 Medi 2017 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol:** Bu J E Burtonshaw (Cadeirydd) yn llywyddu

**Yn Cynrychioli Sefydliadau**:
Alyx Baharie, SCVS
Shelley Elgin, Help for Heroes Cymru
Y Capten Chris Evans, Milwyr Wrth Gefn y Fyddin
Ruth Fleming, Milwyr Wrth Gefn y Llynges
Jackie Preston, Cyngor ar Bopeth
Adrian Rabey, British Training Board
Antony Rabey, Aartic Training
Nicola Russell-Brooks, Age Cymru Bae Abertawe
David Singletary, SSAFA
Dean Thomas, Heddlu De Cymru
Eve Warburton, UWTSD
Paul Whapham, Gweilch
Victoria Williams, Hen Filwyr GIG Cymru

**Swyddogion:**
Gareth Borsden – Gwasanaethau Democrataidd
Spencer Martin – Cydlynydd Perthnasoedd y Sector Gwirfoddol

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Eleonora Evans, Peter Evans, Medwin Hughes, Byron Lewis a Peter Neville

---

**16 Derbyn datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Dim.

**17 Cofnodion.**

**Penderfynwyd** cytuno bod cofnodion y panel a gynhaliwyd ar 24 Gorffennaf 2017 yn gofnod cywir.

**18 Help for Heroes. (Cyflwyniad)**

Rhoddwyd cyflwyniad manwl ac addysgiadol gan Shelly Elgin (Rheolwr Adfer) a Paula Mitchell (Cyswllt Clinigol Hen Filwyr) o Help for Heroes, i'r panel ar fanylion cefndir a'r gwaith a wneir gan Help for Heroes yng Nghymru.

Mae'r pynciau a drafodwyd fel rhan o'r cyflwyniad yn cynnwys y meysydd canlynol:
- Cefndir sefydlu'r sefydliad;
- Y prif nodau ac amcanion;
- Y tîm yng Nghymru;
- Canolfannau adfer ar draws y DU, a chlinigau arbenigol sydd ar gael;
- Digwyddiadau chwaraeon wythnosol rheolaidd yng Nghasnewydd a Phen-y-bont ar Ogwr, posibilrwydd o ddatblygu cysylltiadau â rygbi cadair olwyn y Gweilch;
- Cyrsiau a dosbarthiadau amrywiol sydd ar gael;
- Cynllun Pathfinder;
- Cymorth a chyngor ar les ar gael (tai, cyflogaeth, budd-daliadau etc);
- Prosiect Band of Brothers/Sisters;
- Cynllun Cefnogaeth Seicolegol Hidden Wounds;
- Gwasanaeth Cyswllt Clinigol i Hen Filwyr newydd ei sefydlu;
- Cysylltiadau ariannu newydd gyda Hen Filwyr GIG Cymru ar gyfer therapyddion:
- Problemau gan nad yw hen filwyr yn cofrestru fel "hen filwyr";
- "mannau problemus" Help for Heroes;
- Meini prawf cymhwysedd:

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am eu cyflwyniad.

**19 Y diweddaraf gan aelodau'r panel. (Llafar)**

Rhoddwyd diweddariadau ar lafar gan Aelodau'r Panel ynglŷn â'r gweithgareddau presennol ac arfaethedig, digwyddiadau a llwythi gwaith eu grwpiau/sefydliadau priodol, gan gynnwys y meysydd canlynol:

<u>Y Gweilch</u>
Dywedodd Paul Whapham nad oedd y cais diweddar am arian ar gyfer y prosiect "sporting reminiscence" wedi bod yn llwyddiannus, ond bydd mwy o waith ac ymchwil yn cael eu gwneud cyn cyflwyno cais arall ar gyfer rownd ariannu yn y dyfodol.

Cyfeiriodd at ddigwyddiad y Lluoedd Arfog sy'n cael ei gynnal yng ngêm Clermont ar 15 Hydref, a fydd yn cynnwys cadetiaid, milwyr wrth gefn, personél amrywiol y gwasanaethau, waliau dringo, stondinau/arddangosfeydd etc.

<u>Hyfforddiant Aartic</u>
Dywedodd Antony Rabey fod dros 2,000 o bobl wedi cofrestru ar gyfer y cyrsiau hyfforddiant amrywiol.

Mae'r cynllun trosglwyddo sgiliau'n parhau i weithio'n dda gydag ailhyfforddi a rhoi sgiliau newydd i gyn-bersonel y lluoedd.

Cyfeiriodd at gynllun newydd y mae'r sefydliad yn mynd i fod yn rhan ohono sef prosiect Gwaith Tîm (Teamwork) a ariennir drwy arian Cynnydd ac mae ar gyfer pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET).

Bwrdd Hyfforddiant Prydeinig

Dywedodd Adrian Rabey ei fod wedi derbyn cyfres o ystadegau manwl yn ddiweddar ynghylch niferoedd a lleoliadau cyn-filwyr yn ardal Abertawe. Dywedodd y byddai'n rhannu'r wybodaeth ag aelodau'r panel.

Dywedodd fod y cynllun gwarantu cyfweliad yn parhau i dyfu gyda 24 cwmni bellach yn cymryd rhan.

Amlinellodd y cefndir i ddatblygu cynllun Academi Cymunedol y Lluoedd Arfog a fydd, gobeithio, yn cael ei ddatblygu drwy gyllid Cynnydd a fydd yn ceisio helpu pobl ifanc i ddatblygu eu cysylltiadau â'r lluoedd arfog.

Y Llynges

Dywedodd Ruth Fleming yr edrychir ymlaen yn eiddgar at y digwyddiadau amrywiol yng ngêm y Gweilch ar 15 Hydref, lle cynhelir cyfres o ddigwyddiadau a bydd amrywiaeth o bersonél yn bresennol.

Dywedodd hefyd y bydd y Llynges Frenhinol yn cyflwyno pêl gêm yr Elyrch ar 4 Tachwedd, i gyd-fynd â digwyddiadau Sul y Cofio.

Dywedodd fod cyfres o ddyddiadau ar gyfer cyfarfodydd Ffederasiwn Teuluoedd y Llynges yn cael eu cadarnhau'n fuan a byddant yn cael eu rhannu ag aelodau'r panel.

Cadeirydd

Dywedodd y Cynghorydd June Burtonshaw mai'r bwriad yw cynnal cynllun plannu 'pabïau' y flwyddyn nesaf i gyd-fynd â choffáu 100 mlynedd ers diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf, rhywbeth tebyg i'r cynllun llwyddiannus a gynhaliwyd rai blynyddoedd yn ôl.

Dywedodd ei bod yn parhau i helpu unigolion fesul achos pan ofynnir am gymorth gan aelodau'r panel.

Amlinellodd fod y mater gyda'r polyn baner gobeithio, wedi'i ddatrys ac y byddai Sioe Awyr 2018 yn cael ei gynnal ar 31 Mehefin ac 1 Gorffennaf 2018. Gan mai diwrnod y Lluoedd Arfog yw 30 Mehefin, byddai angen trafod ymhellach y ffordd orau i fwyafu'r cysylltiadau rhwng y ddau ddigwyddiad hyn er budd pawb.

Cymdeithas y Milwyr, Morwyr, Awyrenwyr a'u Teuluoedd (SSAFA)

Dywedodd Dave Singletary fod ei sefydliad wedi colli gweithwyr achosion yn ddiweddar ac y byddai'n croesawu unrhyw wirfoddolwyr newydd.

Dywedodd fod y prosiect Bulldog yn parhau i dyfu a gobeithio y bydd yn meithrin cysylltiadau â Hen Filwyr y GIG a Help for Heroes yn y dyfodol.

Y Fyddin

Adroddodd Chris Evans am lwyddiant y ffair gyrfaoedd a gynhaliwyd yn y Grange yn ddiweddar gan ddenu mwy na 40 o hen filwyr. Gobeithio bydd y digwyddiad yn cael ei gynnal eto yn y dyfodol.

Cyfeiriodd at y prosiect sy'n cael ei ddatblygu gydag Hyfforddiant Aartic a fydd yn defnyddio'r cyfleusterau yn y Grange dros gyfnod o fisoedd.

Dywedodd fod y trefniadau angenrheidiol ar gyfer Gorymdeithiau Sul y Cofio yn eu lle.

<u>Age Cymru Bae Abertawe</u>
Dywedodd Nicola Russel-Brooks ei bod wedi cwrdd yn ddiweddar â chynrychiolwyr o HMS Cambria ynghylch Cynllun Llety Woodies.

Esboniodd y cynllun cwrdd/cinio "unigrwydd" sydd ar gael yn Abertawe ac ym Mhen-y-bont ar Ogwr ar ôl cael cyllid gan Tesco.

Dywedodd gan fod yr arian wedi'i dynnu yn ôl, byddai'r prosiect "bod yn gyfaill" yn dod i ben ym mis Mawrth 2018, ond dywedodd y gallai ei sefydliad gyfeirio pobl i gynlluniau tebyg eraill os byddai angen.

Dywedodd fod Cymorth i Fenywod Abertawe'n awyddus i gymryd rhan gyda chefnogi pobl dros 50 oed a datblygu eu cysylltiadau â theuluoedd y lluoedd arfog.

Dywedodd mai dyma ei chyfarfod olaf cyn iddi ymddeol.

<u>Heddlu De Cymru</u>
Dywedodd Dean Thomas mai dyma ei gyfarfod cyntaf fel aelod o’r panel, a byddai ei brofiad a'i farn yn adlewyrchu ei gefndir "dalfa" yn yr heddlu.

Cyfeiriodd at y cynllun sydd eisoes ar waith yn ystafelloedd y ddalfa lle mae hen filwyr yn cael eu hannog gan y gweithwyr atgyfeirio arestio i ddatgelu eu gwasanaeth blaenorol pan fyddant yn cael eu harestio, er mwyn cael eu hatgyfeirio i sefydliadau megis Change Step.

Amlinellodd y cyswllt â phrosiect STOMP y Gwasanaeth Prawf.

Dywedodd Dave Singletary fod cyrsiau a phosteri ar gael i heddweision a gorsafoedd i annog hen filwyr i ddatgelu.

<u>Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant</u>
Dywedodd Eve Warburton fod y Brifysgol yn parhau i ddarparu cyrsiau i hen filwyr a phersonél sy'n gwasanaethu fel ei gilydd.

<u>GIG Cymru i Gyn-filwyr</u>
Dywedodd Victoria Williams fod ei gwasanaeth wedi sicrhau £500k ychwanegol dros gyfnod o dair blynedd a fydd yn ariannu 3 therapydd ychwanegol yn Abertawe, Castell-nedd a Phen-y-bont ar Ogwr. Dywedodd y byddai'n edrych i ddefnyddio ystafelloedd yn lleol er mwyn galluogi staff newydd i weithio'n lleol.

Dywedodd aelodau'r panel efallai fod ganddynt ystafelloedd addas y gallai'r gwasanaeth eu defnyddio a byddent yn trafod yr opsiynau yn dilyn y cyfarfod.

Dywedodd y byddai staff newydd yn lleihau'r rhestr aros bresennol i oddeutu 3 mis.

Cyfeiriodd ar y cysylltiadau ardderchog â Help for Heroes gydag atgyfeiriadau ar gyfer gwasanaeth.

Cyngor ar Bopeth
Dywedodd Jackie Preston fod ei gwasanaeth ar gael i roi cyngor ar faterion fel dyled ar gyfer hen filwyr a phersonél sy'n gwasanaethu.

Daeth y cyfarfod I ben am 3.13 pm

**Cadeirydd**